OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 1012 (Cy.151)

# AMAETHYDDIAETH, CYMRU
# ADNODDAU DŴR, CYMRU

## Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer Amaethyddol Da) (Cymru) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *29 Mawrth 2011* |
| *Yn dod i rym - -* | *19 Ebrill 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru, wrth arfer y pwerau a roddwyd gan adran 97(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991(**1**) ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd yn unol ag adran 97(3)(**3**) o'r Ddeddf honno.

### Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer Amaethyddol Da) (Cymru) 2011.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 19 Ebrill 2011.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

(4) Yn y Gorchymyn hwn, ystyr "y Cod Ymarfer" yw'r Cod Ymarfer Amaethyddol Da i warchod ansawdd dŵr, pridd ac aer a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 30 Mawrth 2011(**4**).

### Cymeradwyo'r Cod Ymarfer

**2.** Mae Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo'r Cod Ymarfer i'r graddau y dyroddwyd y cod ymarfer at ddibenion—

(**1**) 1991 p.57
(**2**) Trosglwyddodd Erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999, ac Atodlen 1 iddo, (O.S. 1999/672) swyddogaethau "the Ministers", o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hyn o Gynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru o dan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi (p.32).
(**3**) Mae adran 97(3) wedi ei diwygio gan baragraff 128 o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p.25).
(**4**) Mae'r Cod ar gael yn electronig ar www.cymru.gov.uk neu ar ffurf copi caled gan Yr Adran Materion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

(a) rhoi cyfarwyddyd ymarferol i bobl sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth gyda golwg ar weithgareddau a all gael effaith ar ddyfroedd wedi eu rheoli(**5**); a

(b) hybu'r hyn sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru yn arferion dymunol gan y cyfryw bersonau i osgoi llygru neu gwtogi hyd yr eithaf ar lygru unrhyw ddyfroedd o'r fath.

**Dirymu**

**3.** Mae Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer) (Cymru) 1998(**6**) wedi ei ddirymu i'r graddau y mae'n gymwys i Gymru.

*Elin Jones*
Y Gweinidog dros Faterion Gwledig, un o Weinidogion Cymru

29 Mawrth 2011

(**5**) Gweler y diffiniad o "controlled waters" yn adran 104(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991.
(**6**) O.S. 1998/3084.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru. Mae'r Gorchymyn hwn yn cymeradwyo, o dan adran 97(1) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, y Cod Ymarfer Amaethyddol Da i warchod ansawdd dŵr, pridd ac aer, a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 30 Mawrth 2011 ("y Cod Ymarfer") i'r graddau y dyroddwyd y cod ymarfer at y diben a grybwyllir yn Erthygl 2.

Mae'r Cod Ymarfer hwn yn disodli, o ran Cymru, y gwahanol Godau Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Gwarchod Dŵr, Aer a Phridd a ddyroddwyd o ran Cymru a Lloegr gan y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac Adran Amaethyddiaeth y Swyddfa Gymreig ym mis Hydref 1998.

Mae'r Gorchymyn hwn yn dirymu, i'r graddau mae'n gymwys yng Nghymru, Gorchymyn Dŵr (Atal Llygredd) (Cod Ymarfer) (Cymru) 1998 (O.S. 1998/3084) a gymeradwyodd y Cod Ymarfer Amaethyddol Da ar gyfer Gwarchod Dŵr.

Mae'n ofynnol i Asiantaeth yr Amgylchedd, yn ôl adran 97(2) o Ddeddf Adnoddau Dŵr 1991, ystyried a fu yna unrhyw weithredu'n groes i'r Cod Ymarfer, neu a yw gweithredu o'r fath yn debygol wrth benderfynu ar pa fodd a pha bryd i arfer y canlynol:

(i) ei swyddogaethau perthnasol, o ran gweithgareddau gollwng dŵr, o dan Reoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2010 O.S. 2010/675, a

(ii) unrhyw bwerau a roddir iddi gan reoliadau o dan adran 92 o'r Ddeddf honno.

Mae copïau electronig o'r Cod Ymarfer i'w cael o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru neu ar ffurf copi caled o'r Adran Materion Gwledig, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ.

Nid oes asesiad effaith rheoleiddiol wedi'i lunio ar gyfer yr Gorchymyn hwn, gan na ragwelir y bydd yn effeithio ar gostau busnes na'r sector gwirfoddol.